# GweithdaiAber:

## Ysgol Fusnes Aberystwyth

**Dod â'n harbenigwyr academaidd ni at eich dysgwyr chi**



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Beth yw GweithdaiAber?

**Mae GweithdaiAber yn rhoi cyfle i'ch dysgwyr gael trafod â'n staff academaidd cyfeillgar a chael eu dysgu ganddynt.**

Bydd ein staff yn trafod deunydd safonol yn y pwnc, ac yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mwy am y maes, y nod hefyd yw eu hannog i ystyried mynd ymlaen i astudio busnes yn y dyfodol.

Mae gennym amrywiaeth o ddarlithoedd/gweithdai â gogwydd academaidd iddynt i'w cynnig mewn nifer o wahanol bynciau. Er na ellir gwarantu y bydd pob gweithdy wastad ar gael, mae GweithdaiAber yn hyblyg:

- **Gallwn eu hamrywio o ran eu hyd**
- **Maent yn addas i gynulleidfaoedd bach neu fawr**
- 12-13 **Cyflwynadwy i grŵpiau blwyddyn 12-13**
- **Ar gael dros y we**
- **Ar gael wyneb-yn-wyneb yn yr ysgol neu'r coleg**
- **Ar gael ar gampws Prifysgol Aberystwyth**
- **Ar gael i ddysgwyr heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y pwnc, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb yn y maes. Nid oes rhaid i ddysgwyr fod yn astudio'r busnes yn yr ysgol neu'r Coleg.**

i I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**

# Cyflwyniad i Ysgol Fusnes Aberystwyth

**Pan fyddwch yn dewis astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth, byddwch yn astudio mewn amgylchedd ysgogol gyda darlithwyr a fydd yn cyfoethogi eich addysg â'u brwdfrydedd, eu sgiliau a'u gwybodaeth flaenllaw. Nod ein rhaglenni yw datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ac entrepreneuriaid, a byddwn yn sicrhau eich bod yn rhan o amgylchedd lle gallwch ddysgu, ymwneud a chyd-greu atebion er mwyn diwallu anghenion amgylchedd busnes sy'n gynyddol gymhleth ac sy'n newid yn gyflym.**

Mae'r Ysgol yn cynnig darpariaeth lawn, gan eich galluogi i astudio Cyfrifeg a Chyllid, Economeg Busnes, Cyllid Busnes, Busnes a Rheolaeth, Economeg, Marchnata a Marchnata Digidol o fewn y cwrs gradd a ddewisir. Gallwn eich sicrhau bod ein cyrsiau ymhlith y rhai gorau sydd ar gael yn y DU, a'u bod yn cael eu profi â chyflogwyr o bwys a sefydliadau proffesiynol amlwg er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ar gyfer y byd go iawn.

Mae ein cyrsiau i gyd wedi'u cydnabod a'u hachredu'n broffesiynol gan y prif gyrff proffesiynol, gan gynnwys: ACCA, CIMA, CIM, CMI a mwy.

Yn ystod eich cyfnod yn Aberystwyth, cewch bob cyfle i ddatblygu CV sy'n ddeniadol i gyflogwyr, sydd bellach yn disgwyl ichi fod â sgiliau 'technegol' ynghyd â'r cymwyseddau megis y gallu i arwain, rheoli adnoddau, chwilfrydedd creadigol a sgiliau cyfathrebu, sy'n ofynnol ar gyfer bron pob swydd dda.



# GweithdaiAber Busnes a Rheolaeth

### Sut wnaeth IKEA ddodrefnu'r byd, un fflatpac ar y tro

CY EN MP Rh

Bydd y gweithdy hwn yn caniatáu i ddisgyblion graffu ar sut mae busnes byd-eang yn gweithredu. Mae'n dadansoddi sut mae IKEA wedi bod yn llwyddiannus mewn gwahanol farchnadoedd ledled y byd. Yn benodol, mae'n datgelu'r heriau y mae IKEA wedi'u hwynebu ac yn parhau i'w hwynebu wrth redeg ei fusnes mewn gwahanol wledydd.

### A oes angen rheolwyr ar fusnesau mewn gwirionedd?

CY EN MP Rh

Bydd y sesiwn ryngweithiol hon yn helpu disgyblion i ddeall rôl rheolwyr o fewn busnes. Beth sy'n gwneud rheolwr da? Neu reolwr gwael? Bydd y sesiwn yn caniatáu i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd cyfathrebu a gwneud penderfyniadau. Gofynnir i ddisgyblion ymgymryd â rôl rheolwr a gwneud rhai penderfyniadau yn seiliedig ar sawl senario yn y byd go iawn.

### A yw gwneud pethau da yn llesol i fusnes?

CY EN MP Rh

Mae'r gweithdy hwn yn annog disgyblion i gwestiynu rôl busnesau. A ddylai busnesau wneud pethau da? A ddylai busnesau fabwysiadu materion cynaliadwyedd gwyrdd fel dylanwad sylfaenol yn eu gweithrediadau busnes? A yw cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn allweddol i lwyddiant busnes?

### A yw Deallusrwydd Artiffisial yn diswyddo arweinwyr busnes?

CY EN MP Rh

Mae dylanwadau DA yn ein hamgylchynu, ond sut beth yw rheoli, arwain, neu weithio mewn sefydliad sy'n defnyddio DA? Sut olwg sydd ar arweinyddiaeth mewn busnes sy'n cael ei hwyluso gan DA? A yw robotiaid sy'n defnyddio DA yn mynd i fabwysiadu rôl arweinydd? A all DA wneud gwell penderfyniadau busnes strategol nag arweinydd dynol?

### Sut i redeg busnes yn yr un modd â Disney Pixar

CY EN MP Rh

Mae'r ddarlith yn trafod sut mae Disney Pixar wedi creu ei ddiwylliant busnes. Mae'n dadansoddi arferion gwaith Disney Pixar ac yn cwestiynu a oes modd trosglwyddo ffordd Disney Pixar o wneud busnes i fusnesau mewn gwahanol ddiwydiannau.

### Y 5 peth i beidio â gwneud wrth ddechrau busnes

CY EN MP Rh

Mae'r gweithdy rhyngweithiol, ymarferol hwn yn darparu profiad ymarferol i ddisgyblion deimlo sut beth yw dechrau busnes. I greu delwedd weledol o fusnes newydd, defnyddir y cynfas model busnes - bydd hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion ystyried elfennau allweddol busnes newydd llwyddiannus.

### Project Management, great successes and abject failures

EN MP Rh

Cyflwyniad cyffredinol i Reoli Prosiectau. Mae'r sesiwn ryngweithiol hon yn cyflwyno disgyblion i reoli prosiectau, o'r gwaith cynllunio cychwynnol yr holl ffordd i'r lansiad. Bydd y disgyblion yn darganfod sut i droi syniadau yn brosiectau llwyddiannus trwy ddysgu sgiliau allweddol fel gwaith tîm, rheoli amser, a datrys problemau wrth iddynt ymgymryd â rôl rheolwr prosiect.

### Where is your business going - developing a business strategy

EN MP Rh

Mae'r ddarlith hon yn meithrin dealltwriaeth o ddatblygiad strategaethau, ac yn dangos pwysigrwydd strategaeth fusnes i'r cwmni ei hun, i wahanol randdeiliaid ac i'r gymuned fusnes ehangach. Mae'r sesiwn hon yn edrych ar y dulliau nifer, sy'n aml yn gwrthdaro â'i gilydd, o ymdrin â strategaeth fusnes; ystyried sut mae strategaeth yn gweithredu o fewn yr amgylchedd busnes mewnol ac allanol ehangach; ac yn darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i wneud penderfyniadau strategol effeithiol a gwybodus.

**Allwedd:**

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

# GweithdaiAber Marchnata

## Cyflwyniad i Farchnata

CY EN MP Rh

Beth yw marchnata a pham mae'n bwysig? Mae'r sesiwn hon yn datblygu dealltwriaeth o'r ffordd y mae cynllunio marchnata yn digwydd trwy integreiddio fframweithiau amrywiol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn

## The Marketing Mix

EN MP Rh

Beth sy'n gwneud i gynnyrch lwyddo - neu fethu? Yn y sesiwn ddiddorol ac ymarferol hon, bydd disgyblion yn trin a thrafod y Cymysgedd Marchnata. Byddant yn dysgu sut mae busnesau'n defnyddio'r elfennau hyn i ddeall cwsmeriaid a chreu cynhyrchion llwyddiannus. Trwy weithgareddau hwyliog ac enghreifftiau yn y byd go iawn, bydd disgyblion yn darganfod sut mae eu hoff frandiau yn tynnu sylw, yn gosod prisiau, ac yn dewis ble a sut i werthu

## Marketing Planning

EN MP Rh

Mae'r sesiwn hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio marchnata a'i ddefnyddio ym maes marchnata heddiw. Bydd disgyblion yn edrych ar wahanol gamau cynllun marchnata o'r cwestiynau cychwynnol fel "beth yw ein sefyllfa bresennol?" i ddarganfod a oedd ein cynllun yn llwyddiant.

I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**

**Allwedd:**

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

## Marketing Communications

EN MP Rh

Mae'r sesiwn hon yn datblygu dealltwriaeth o'r ystod o gysyniadau, adnoddau ac arferion cyfathrebu sydd eu hangen ar sefydliadau i farchnata eu cynnyrch/gwasanaethau'n effeithiol. Mae'r modiwl yn cwmpasu ystod o brosesau cyfathrebu a'r cymysgedd cyfathrebu marchnata cyfoes.

## Global Marketing taster session

EN MP Rh

Ystyried a dadansoddi sut mae marchnata wedi esblygu yn ystod globaleiddio, a'r ymatebion y mae marchnatwyr wedi'u darparu o ganlyniad i'r cyfleoedd a'r bygythiadau unigryw.



# GweithdaiAber Economeg

## Using Economics to Survive the River Ystwyth

EN Rh

Astudiaeth achos gymhwysol sy'n cyflwyno cysyniadau economaidd sylfaenol wrth helpu disgyblion i ddysgu am Aberystwyth. Drwy'r sesiwn ddifyr hon, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn ymdrin ag egwyddorion economaidd craidd mewn lleoliad ymarferol, gan eu cymhwyso i ffug her oroesi. Mae'r sesiwn yn cynnwys gweithgaredd ymarferol 45 munud ac yna sesiwn holi ac ateb 15 munud, ac anogir disgyblion i ofyn cwestiynau drwy'r sesiwn.

## Introduction to Microeconomics

EN MP Rh

Pam mae pethau'n costio'r hyn y maen nhw'n ei gostio? Beth sy'n gwneud i bobl brynu un cynnyrch dros un arall? Mae'r sesiwn hon yn cyflwyno disgyblion i fyd diddorol micro-economeg - yr astudiaeth o sut mae unigolion, aelwydydd a busnesau yn gwneud penderfyniadau. Mae'n ffordd wych o ddechrau meddwl fel economegydd a deall y dewisiadau rydyn ni i gyd yn eu gwneud bob dydd!

## Introduction to Macroeconomics

EN MP Rh

Beth sy'n gwneud i economi gwlad dyfu - neu straffaglu? Yn y sesiwn hon sy'n addas i ddechreuwyr, bydd y disgyblion yn edrych ar facro-economeg, sef yr astudiaeth o sut mae economïau cyfan yn gweithio. Byddant yn trin a thrafod pynciau megis chwyddiant, diweithdra, twf economaidd a rôl y llywodraeth a banciau.

I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**




**Allwedd:**

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

# GweithdaiAber Cyfrifeg a Chyllid

## The Weird and Bizarre Laws of VAT

EN MP Rh

Bydd y cyflwyniad yn edrych ar sut mae TAW yn gweithio ac yn cael ei chasglu, y gwahaniaeth rhwng TAW wrth brynu a TAW wrth werthu, gwahanol gyfraddau TAW, y gwahanol eitemau sy'n dod o dan y gwahanol gyfraddau a goblygiadau hyn. Mae TAW yn effeithio ar bob un ohonom, mae'n ffynhonnell sylweddol o refeniw i lywodraethau ledled y byd ac yn helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith. Mae'n dreth y mae'n rhaid i bawb ei thalu pan fyddant yn defnyddio nwyddau a gwasanaethau gan ei bod wedi'i chynnwys yn y pris ac mae'n rhaid i fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW godi TAW ar eu gwerthiannau a gallant hawlio TAW ar eu pryniannau, sy'n effeithio ar arferion prisio a chyfrifyddu.

## Refinitiv Eikon: Unlocking the Wonders of the Financial World

EN MP

Nod y gweithdy hwn yw helpu disgyblion i symleiddio data ariannol cymhleth a chael dealltwriaeth ddyfnach o fyd deinamig a rhyng-gysylltiedig cyllid; wedi'i gynllunio i gyflwyno disgyblion i Refinitiv Eikon - platfform byd-eang sy'n darparu data o'r farchnad ariannol mewn amser real, hanfodion cwmni, newyddion a dadansoddeg. Trwy brofiad ymarferol, bydd disgyblion yn dysgu sut i ddod o hyd i wybodaeth ariannol berthnasol, dadansoddi dyled a gwarannau ecwiti, olrhain dangosyddion economaidd, a monitro arian cyfred.

## Ffynonellau Cyllid

CY EN MP Rh

Dysgwch fwy am fyd arian! Bydd y sesiwn ryngweithiol hon yn trafod o ble mae busnesau yn cael eu harian, p'un a yw hynny drwy fuddsoddwyr, benthyciadau, neu ariannu torfol, a sut mae'r cyfan yn gweithio mewn bywyd go iawn.

## Cadw Llyfrau

CY EN MP Rh

Eisiau gwybod sut mae busnesau yn cadw golwg ar eu harian? Ymunwch â'r gweithdy rhyngweithiol hwn i ddarganfod hanfodion cadw llyfrau, o gadw cofnodion i gydbwyso'r llyfrau fel gweithiwr proffesiynol!

## Elw yn erbyn Llif Arian

CY EN MP Rh

A all busnes wneud elw ond dal i redeg allan o arian? Gadewch i ni gael gwybod! Bydd y sesiwn ryngweithiol hon yn eich helpu i ddeall y gwahaniaeth rhwng elw a llif arian gydag enghreifftiau go iawn.

## Cymarebau

CY EN MP Rh

Rhifau sy'n adrodd stori! Yn y gweithdy rhyngweithiol hwn, byddwch yn dysgu sut y gall cymarebau ddatgloi cyfrinachau am iechyd cwmni, o faint sy'n ddyledus gan y cwmni i ba mor broffidiol ydyw.

**Allwedd:**

- EN Gellir ei gyflwyno yn Saesneg
- CY Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg
- MP Gellir ei gyflwyno mewn person
- Rh Gellir ei gyflwyno yn rhithiol

i I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i **aberworkshops@aber.ac.uk**




Ysgol Fusnes Aberystwyth,
Adeilad Hugh Owen,
Campws Penglais,
Prifysgol Aberystwyth,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3DY

+44 1970 62 2500
Ysgol-fusnes@aber.ac.uk
/AberBusinessSch

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2025.

111866-01.25
Credyd delweddaeth: freepik.com/stories